**Cofnodion Bwrdd TrC - Medi 2020**

10:00 – 16:30; 15 Hydref 2020

---

**Yn bresennol**

Scott Waddington (SW) (Cadeirydd); James Price (JP); Heather Clash (HC); Sarah Howells (SH); Nicola Kemmery (NK); Alison Noon-Jones (ANJ); Vernon Everitt (VE); Alun Bowen (AB); Gareth Morgan (eitem 2c); a Jeremy Morgan (Ysgrifennydd).

Sesiwn diweddariad gweithredol (Rhan B): David O'Leary (DOL); Lewis Brencher (LB); Lisa Yates (LY); Lee Robinson (LR); Alexia Course (AC); Karl Gilmore (KG); Gareth Morgan (GM); Dave Williams (DW); ac Ynyr Roberts (YR) (eitem 5e).

**Rhan A – Cyfarfod Llawn y Bwrdd**

**1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Natalie Feeley; Geoff Ogden (Rhan B)

**1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm**

Roedd cworwm yn bresennol, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datgan bod y cyfarfod ar agor.

**1c. Datganiadau Budd**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau budd.

**1d. Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion yn codi**

Ystyriwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Medi 2020 a chadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir. Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion.

**2a. Sylw i Ddiogelwch**

Yng nghyd-destun agosáu at y gaeaf a'r holl staff sy'n gweithio gartref, roedd y Bwrdd yn falch o weld y neges a anfonwyd at yr holl staff yn ymestyn y gwahoddiad calendr llesiant i awr. Atgoffwyd y Bwrdd hefyd o'r angen i gofio'r holl faterion iechyd, diogelwch a lles ar gyfer unrhyw gyfnod gaeaf arferol yn ogystal â'r holl faterion sy'n ymwneud â COVID.

**2b. Sylw i Gwsmeriaid**

Mae mwy o gyfyngiadau COVID yn debygol o ddod i rym ac mae angen i ni feddwl am beth y mae hyn yn ei olygu o ran ymgysylltu â chwsmeriaid.

**2c. Perfformiad diogelwch**

Ymunodd GM â’r cyfarfod. Mae ffigurau perfformiad diogelwch yn dda ar y cyfan ond mae angen ystyried bod nifer y teithwyr yn parhau o dan 30%. Fodd bynnag, mae cydymffurfio â gwisgo masg wyneb yn fwy na 90% ar gyfartaledd ac ni chofnodwyd unrhyw ddigwyddiadau Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR). Cynhaliwyd asesiadau risg tân ar gyfer swyddfa newydd TrC ym Mhontypridd gan weithredu argymhellion y Swyddog Tân. Mae’r gweithgor sydd wedi’i sefydlu wedi llunio cynllun cynefino iechyd a diogelwch drafft ar gyfer staff sy'n symud i Bontypridd, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o’r adran Cyfleusterau a Chyfathrebu. Mae amrywiaeth o fideos diogelwch mewnol hefyd yn cael eu datblygu ar hyn o bryd sy'n ymdrin â diogelwch swyddfa, gweithgareddau adeiladu a diwylliant diogelwch. Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn parhau yn broblem, gyda nifer y digwyddiadau’n cynyddu, ond yn gyffredinol, mae tueddiadau troseddau ar lwybrau wedi gostwng rhywfaint.

Mae’r Cynllun Diogelwch Ystwyth teirochrog wedi parhau i’w ail gyfnod. Cafodd y cynllun ei ddatblygu a'i weithredu yn seiliedig ar wybodaeth a gyda mesurau diogelwch a chymorth BTP ar draws y rhwydwaith. Mae'r cynllun hwn wedi cael adborth cadarnhaol gan weithwyr, cwsmeriaid a'r heddlu. O fewn saith wythnos i'r cynllun gael ei roi ar waith, gwrthodwyd bron i 3,000 o aelodau o'r cyhoedd rhag teithio neu gofynnwyd iddynt adael trên am beidio â chydymffurfio â gwisgo gorchudd wyneb.

Mae’r cynllun peilot gwisgo Camera ar y Corff yn parhau yn llwyddiannus a disgwylir iddo ddod i ben ddiwedd mis Medi. Cynhelir adolygiad gwirfoddoli terfynol gyda phob canolfan i gasglu syniadau terfynol ac adborth. Bydd cynnig ar gyfer gwisgo Camera ar y Corff yn cael ei ddrafftio yn seiliedig ar ystadegau troseddu, seilwaith ac adborth gwirfoddolwyr, a chaiff ei gynnwys mewn prosesau caffael er mwyn nodi cyflenwr a chynnyrch addas.

Cafodd y Bwrdd ei friffio am ymchwiliadau i ddau ddigwyddiad SPAD yn ystod y cyfnod diwethaf. Awgrymodd y Bwrdd sesiwn ddiogelwch i dynnu sylw at y duedd SPAD a'r angen i weithredu. GM i awgrymu hyn i Wasanaethau Rheilffyrdd TrC.

**Cam gweithredu: GM i awgrymu cynnal sesiwn ddiogelwch ar SPADs i’r Gwasanaethau Rheilffyrdd.**

Nid oes unrhyw ddamweiniau wedi'u cofnodi ar unrhyw safleoedd seilwaith. Mae digwyddiadau a fu bron â digwydd yn cael eu cofnodi ac mae pob ymdrech yn cael ei gwneud i beidio â bod yn hunanfodlon.

**3a. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Gweithredol ei adroddiad. Mae cludiant i ysgolion a cholegau yn parhau yn her, yn enwedig o ran Coleg Henffordd. Yn anffodus, oherwydd gofynion cadw pellter cymdeithasol, nid yw pob myfyriwr yn gallu teithio ar y trên sy'n golygu bod rhai myfyrwyr yn gorfod mynd ar daith arafach ar fws.

Mae gwaith yn parhau i gyfrifo costau effaith COVID-19 ar raglen drawsnewid CVL. Mae pris diwygiedig wedi'i lunio ac mae'n rhan o’r cwmpas sydd wedi'i gyflwyno o’r blaen i'r Bwrdd a Llywodraeth Cymru. [redacted]

Rhoddwyd gwybod i’r Bwrdd y bu ymyriad sylweddol dros y penwythnos cyntaf ym mis Hydref o ran gallu i gludo nwyddau'r ased CVL ym mhontydd y croestorfan ac Adam Street yng Nghaerdydd. Fel rhan o’r gwaith atgyweirio i’r bont croestorfan yng Nghaerdydd, nododd peirianwyr yr hyn yr oeddent yn credu sy'n fwa wedi’i anffurfio o'i gymharu â'r arolygiad diwethaf. Arweiniodd hyn at arolygiad pellach ar bont Adam Street ac roedd angen archwiliad brys manwl hefyd. O ganlyniad, rhoddwyd terfynau pwysau ar y ddau strwythur a oedd yn atal unedau trymach (gan gynnwys Dosbarthiadau 769 a chludo llwythi) rhag mynd heibio. Mae'r broblem wedi'i chywiro. Trafododd y Bwrdd y gwersi a ddysgwyd gan gynnwys sut rydym yn gweithio gyda Network Rail ar faterion o'r fath.

Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am drafodaethau gyda'r ODP ar gyfer trefniadau ôl-EMA yr ehangwyd arnynt yn sesiwn y prynhawn. Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd, wrth i ni symud tuag at redeg gwasanaethau o ddydd i ddydd o dan OLR, bod gwaith yn cael ei wneud i benderfynu beth mae hyn yn ei olygu i strwythur a threfniadau llywodraethu'r sefydliad, yn seiliedig ar yr egwyddor arweiniol o integreiddio prosesau rhedeg y rheilffordd yn ddiogel o fewn TrC yn ei gyfanrwydd. Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd mai un o'r risgiau mwyaf i lwyddiant OLR fydd argaeledd gyrwyr a'u hyfforddi, yn enwedig gyda'r broses o ddechrau cyflwyno cerbydau newydd a'u rhaeadru.

Cytunodd y Bwrdd mai'r ffocws i bob parti sy'n ymwneud â rheilffyrdd yng Nghymru yw penderfynu beth yw'r rhwydwaith yr ydym am ei redeg yng Nghymru a beth yw'r ffordd fwyaf effeithlon o wneud hyn. Gofynnodd y Bwrdd a ddylai fod yn rhan o'r broses o feddwl am lefelau gwasanaeth yn y dyfodol, yn enwedig mewn ymateb i COVID-19. Cytunwyd y dylai TrC fod yn wyliadwrus iawn o leihau lefelau gwasanaeth a allai gael effaith hirdymor ar yr hyn y mae TrC yn ceisio ei gyflawni o ran gwell gwasanaethau trafnidiaeth integredig i'r wlad gyfan ac y gallai rwystro adferiad o'r pandemig. Cynghorodd y Bwrdd yn erbyn cymryd camau gydag effaith unwaith ac am byth tymor byr na ellir ei hadennill yn y tymor canolig i'r hirdymor a lle gwelir nad yw teithwyr yn dychwelyd. Mynegodd y Bwrdd hefyd ei ddymuniad i ddeall mwy o'r manylion ynghylch unrhyw fesurau posibl i arbed costau.

Trafododd y Bwrdd opsiynau ynghylch strwythur posibl y cwmni OLR newydd. Cytunodd y Bwrdd y dylid rheoli'r gwaith o redeg gwasanaethau drwy ddiwylliant perfformiad, ac nid diwylliant rheoli contractau. Trafododd y Bwrdd hefyd ddewisiadau ynghylch cyfansoddiad y Bwrdd WOLR a chytunodd y dylai rheolwr gyfarwyddwr OLR fod yn unigolyn a chanddo gefndir ym maes rheilffyrdd a'i fod yn gallu dangos rhagoriaeth ym maes diogelwch a gweithredu. Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd am ddyletswyddau ychwanegol y cyfarwyddwyr o ran materion iechyd a diogelwch yn sgil bod yn gyfarwyddwr WOLR. Pwysleisiodd y Bwrdd hefyd yr angen i ystyried bysiau a dulliau eraill a fydd yn cael eu trosglwyddo i TrC a strwythur effaith bosibl y Bwrdd a'r Uwch Dîm Arwain. Pwysleisiodd y Bwrdd yr angen i sicrhau sefydlogrwydd i'r timau wrth symud ymlaen i liniaru unrhyw nerfusrwydd ynghylch newidiadau i strwythurau a threfniadau llywodraethu yn y dyfodol. Cytunwyd i rannu'r syniadau diweddaraf â'r Bwrdd ynghylch strwythurau a threfniadau llywodraethu yn y cyfarfod nesaf.

**Cam gweithredu: JP i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Fwrdd mis Tachwedd am ddatblygu strwythurau a threfniadau llywodraethu ar gyfer y trefniadau newydd sy'n ymwneud â WOLR, y fenter ar y cyd a'r gwaith o reoli seilwaith a phroses trawsnewid CVL.**

Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd nad yw staff arlwyo yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd a'u bod yn cael eu hadleoli i lanhau a gwneud gwaith diogelwch, gan wrthbwyso'r costau sy'n cael eu talu i gontractwyr.

**3b. Cyllid**

Nododd y Bwrdd yr adroddiad ariannol a chyfrifon rheoli mis Medi. Gofynnodd y Bwrdd am ragor o wybodaeth am oblygiadau WOLR ar fantolen TrC. Yng nghyd-destun rheoli WOLR, bydd y mater sy'n ymwneud ag amrywiadau tymhorol mewn refeniw sy'n creu rhywfaint o ansicrwydd yn cael ei godi gyda Llywodraeth Cymru. Cytunwyd i gyflwyno papur mewn cyfarfod yn y dyfodol ar gyfrifoldebau TrC yn y dyfodol o ran prisiau tocynnau, refeniw a gostyngiadau.

**Cam gweithredu: HC i lunio papur yn nodi cyfrifoldebau Trafnidiaeth Cymru yn y dyfodol o ran prisiau tocynnau, refeniw a gostyngiadau.**

Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd am newidiadau mewn rhagolygon blwyddyn lawn, gyda gwariant refeniw ar hyn o bryd £20 miliwn yn llai na'r hyn a ragwelwyd yn sgil cyfnod cau'r Cytundeb Mesurau Brys (EMA) ac ar ei ôl a adlewyrchir yn

y flwyddyn; a gwariant cyfalaf £24 miliwn yn llai na'r hyn a ragwelwyd oherwydd newidiadau i wariant y rhaglen Trawsnewid CVL sydd wedi'i ysgogi gan y pandemig yn bennaf.

Nododd y Bwrdd fod gwariant ar adnoddau yn y mis (Medi) yn £30 miliwn (ac eithrio arian heb fod yn arian parod) y mae £28.6 miliwn ohono'n ymwneud â rheilffyrdd, y mae'r rhan fwyaf ohono'n cael ei drosglwyddo i'r ODP; a bod gwariant cyfalaf yn y mis (Medi) yn £10 miliwn, yr oedd £9.9 miliwn ohono'n ymwneud â rheilffyrdd.

**3c. Diweddariad am yr is-bwyllgorau**

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfod y Pwyllgor Pobl ym mis Medi a oedd yn cwmpasu'r cynllun graddedigion, datblygu talent ac yn lansio'r cynllun buddion hyblyg. Soniodd y Bwrdd am y gwaith sy'n cael ei wneud er mwyn sicrhau bod TrC yn lle da i weithio.

**3d. Y Bwrdd Llywio**

Mae Bwrdd Llywio nesaf TrC wedi'i drefnu ar gyfer 21 Hydref.

**4. Unrhyw fater arall**

Gofynnodd y Bwrdd am yr wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau'n ymwneud â bysiau a dywedwyd wrtho fod y gwaith yn mynd rhagddo. Cytunodd y Cadeirydd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf gan y Bwrdd Llywio Bysiau yng nghyfarfod mis Tachwedd.

**<u>Rhan B – Sesiwn diweddariad gweithredol</u>**

Ymunodd LB, AC, LY, KG, DW, DOL, GM a LR â'r cyfarfod.

**5a. Dyfodol y Rheilffyrdd**

Trafododd y Bwrdd bapur yn rhoi trosolwg o sefyllfa bresennol y contract gwasanaethau rheilffyrdd, gan nodi'r gwaith a gwblhawyd i nodi ateb newydd ac argymell cynnig newydd ar gyfer cytuno ar weithred o derfynu'r Cytundeb Grant presennol, darparu gwasanaethau rheilffyrdd drwy bennu Gweithredwr Dewis Olaf i ddechrau ar 7 Chwefror 2021, menter ar y cyd â Keolis Amey a chontract camu i'r adwy gydag Amey Keolis Infrastructure Ltd ar gyfer rheoli seilwaith a thrawsnewid CVL, y ddau i ddechrau ar 7 Chwefror 2021 Roedd y papur hefyd yn cynnwys asesiad gwerth am arian yn erbyn egwyddorion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a chyngor cyfreithiol ar gaffael, cydymffurfio â chymorth gwladwriaethol a deddfwriaeth rheilffyrdd.

Cafodd y Bwrdd gadarnhad nad oedd dychwelyd i'r Cytundeb Grant yn ddichonadwy oherwydd byddai nifer isel o deithwyr yn cael effaith ddinistriol ar refeniw a byddai'n arwain at fethiant o ran y contract, ac o ganlyniad rhaid cytuno ar fodel amgen ar gyfer darparu gwasanaethau rheilffyrdd. [redacted]

Trafododd y Bwrdd y risgiau o fynd yn ôl i'r Cytundeb Grant a chytunodd fod y camau lliniaru arfaethedig o alw gweithredwr dewis olaf, menter ar y cyd â Keolis Amey a chontract camu i'r adwy gydag Amey Keolis Infrastructure

Ltd yn drech na'r risgiau o ddychwelyd i'r Cytundeb Grant. Cytunodd y Bwrdd y byddai effaith dychwelyd i'r Cytundeb Grant ar bob parti yn sylweddol ac y dylid cymryd camau i beidio â chaniatáu i hyn ddigwydd.

Rhoddwyd gwybod i’r Bwrdd ei bod yn hollbwysig i bob parti ymrwymo i gytundeb newydd a chytuno ar rwymedïau cytundebol ac ariannol. [redacted]. Cytunodd y Bwrdd, er na ellir cynnal asesiad gwerth am arian llawn ar y fenter ar y cyd gan fod trafodaethau ar fanylion y trefniant yn parhau, gyda'i gilydd, bod modd cyfiawnhau’r trefniadau newydd arfaethedig ar sail gwerth am arian.

Cafodd y Bwrdd wybodaeth am gyngor cyfreithiol ategol a gafwyd ar y trefniadau newydd arfaethedig ynghylch cydymffurfio â chymorth gwladwriaethol, caffael a chydymffurfio â'r Rheoliadau Rheilffordd yng nghyswllt pennu Gweithredwr Dewis Olaf.

Rhoddwyd gwybod i’r Bwrdd bod adolygiad wedi'i gynnal i benderfynu a ellid dadlau bod modd llunio achos dros y trefniadau newydd arfaethedig ar y sail eu bod yn newydd, yn ddadleuol neu'n ailadroddus. Rhoddwyd gwybod i’r Bwrdd bod y sefyllfa bresennol yr un fath â’r un sy'n wynebu’r diwydiant rheilffyrdd ledled y DU a thrwy gydol y broses, mae TrC wedi ymgysylltu'n llawn â'r Adran Drafnidiaeth a Gweinidogion Cymru. At hynny, ni wneir unrhyw benderfyniad ar y trefniadau newydd heb gymeradwyaeth ysgrifenedig lawn Gweinidogion Cymru. Daeth yr adolygiad i'r casgliad nad yw’r trefniadau newydd arfaethedig yn cael eu hystyried yn rhai newydd, dadleuol nac ailadroddus.

Trafododd y Bwrdd faterion yn ymwneud â risgiau refeniw a derbyniodd y bydd risgiau refeniw, wrth gymryd rheolaeth uniongyrchol dros y rheilffordd, yn trosglwyddo o'r ODP i TrC a'r sector cyhoeddus. Rhoddwyd gwybod i’r Bwrdd, yn seiliedig ar sefyllfa’r diwydiant, nad ystyrir ei bod yn ymarferol i unrhyw drosglwyddiad risg refeniw fod yn bosibl i unrhyw weithredwr ers sawl blwyddyn a bod sefyllfaoedd diwydiant yn awgrymu y byddai angen i'r llywodraeth gynnal risg refeniw ar gyfer y rhan fwyaf o gwmnïau trenau am y pump i saith mlynedd nesaf o leiaf. Derbyniodd y Bwrdd, er bod y risg refeniw hon yn cyflwyno heriau sylweddol i TrC, y bydd y cynnig a argymhellir yn amodol ar ei reoli mewn modd effeithiol. Drwy drefniadau OLR, bydd TrC yn gyfrifol am reoli'r sylfaen costau a fydd yn caniatáu i TrC benderfynu'n uniongyrchol ar y camau lliniaru sydd eu hangen i fynd i'r afael â gostyngiad mewn refeniw. Cydnabu'r Bwrdd hefyd fod risgiau refeniw wedi’u rhoi gerbron Llywodraeth Cymru oherwydd y sefyllfa bresennol ac y byddent yn debygol o barhau hyd y gellir rhagweld, pa ffordd bynnag y bydd gwasanaethau rheilffyrdd yn cael eu contractio.

Cymeradwyodd y Bwrdd yr argymhelliad i gytuno ar Benaethiaid Telerau sy'n gyfreithiol rwymol gyda'r ODP erbyn 18 Hydref 2020 i alluogi:

- cytundeb mewn egwyddor (yn amodol ar gadarnhad cyllid gan Weinidogion Cymru) i barhad gwasanaethau rheilffordd ar delerau EMA tan ddyddiad y gellir rhoi OLR ar waith yn ddiogel ac yn effeithlon (sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd fel 6 Chwefror 2021);
- trosglwyddo Gwasanaethau Rheilffyrdd o'r ODP i Weithredwr Dewis Olaf;
- contract AKIL newydd ei lunio ar gyfer rheoli seilwaith a gwasanaethau Trawsnewid CVL am saith mlynedd;
- datblygu partneriaeth integreiddio a gwasanaethau arloesi gyda Keolis;

- Gweithred Terfynu sy'n nodi symiau iawndal Cytundeb Grant yr ODP rhwng y partïon.

Cytunodd y Bwrdd ar ganlyniadau'r cytundeb hwn, yn amodol ar gytundeb terfynol a chyfnewid contractau ym mis Rhagfyr 2020:

- bydd Cytundeb Grant yr ODP yn dod i ben ar ôl cytuno ar Weithred Terfynu ar ddyddiad y cytunwyd arno, sef 6 Chwefror 2021;
- contract newydd ei lunio sy'n darparu gwasanaethau rheoli seilwaith a thrawsnewid CVL o 7 Chwefror 2021 am gyfnod o saith mlynedd;
- bydd Gwasanaethau Rheilffordd yr ODP yn trosglwyddo i Weithredwr Dewis Olaf Cymru (WOLR) ar 7 Chwefror 2021;
- bydd menter newydd ar y cyd yn cael ei greu rhwng Trafnidiaeth Cymru, Keolis ac Amey i ddarparu gwasanaethau Integreiddio ac Arloesi i'r sefydliad dros gyfnod o bum mlynedd.

Derbyniodd y Bwrdd, pe na bai cytundeb a thelerau terfynol yn cael eu sicrhau erbyn mis Rhagfyr 2020, y bydd TrC yn cadw'r hawl a'r gallu i ddychwelyd yr ODP i'r Cytundeb Grant ar 6 Chwefror 2021. Roedd y Bwrdd yn deall ac wedi trafod canlyniadau'r cam gweithredu hwn o'r blaen. Rhoddodd y Bwrdd awdurdod i SW a JP lofnodi'r holl ddogfennau perthnasol sy'n ymwneud â'r uchod, oni bai bod mater arwyddocâd yn codi sy'n gofyn am sylw'r Bwrdd.

**5b. Cofrestr risgiau TrC**

Adolygodd a thrafododd y Bwrdd newidiadau i'r gofrestr risg dros y mis diwethaf.

**5c. Canfyddiadau'r cyhoedd**

Roedd meddalwedd SenseMaker ym mis Medi yn mesur 1,700 o ganfyddiadau cwsmeriaid o ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn sgil COVID. Canfu'r arolwg fod mwy o bobl yn y sampl yn awyddus i ddychwelyd i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ond efallai y bydd symudiad tuag at ei ddefnyddio'n llai aml ar gyfer cymudo a mwy at ddibenion hamdden. Cynhaliwyd trafodaeth ar annog pobl yn ôl i ddefnyddio trenau ond gydag angen i sicrhau bod cwsmeriaid yn ddiogel.

**5d. Asesiad effaith Covid CVL**

Adolygodd y Bwrdd bapur yn crynhoi effaith Pandemig Byd-eang COVID-19 ar y rhaglen Trawsnewid CVL a'r effeithiau dilynol o ran y gost a'r rhaglen. [redacted]

Gofynnodd y Bwrdd a oes perygl y bydd cyllid ERDF yn cael ei dynnu'n ôl. Cadarnhawyd bod y rhaglen wedi'i hail amserlennu a bod dyddiad cwblhau'r gwaith sy'n cael ei ariannu drwy ERDF wedi'i gyflwyno.

Cadarnhawyd hefyd na all y cerbydau newydd sydd wedi'u harchebu redeg ar y seilwaith CVL presennol ac y byddai bellach yn fwy costus canslo'r cerbydau newydd na chanslo'r rhaglen. Cytunodd y Bwrdd mai ychydig iawn o le sydd bellach i symud o ran cost. Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd bod system yn cael ei defnyddio i reoli newidiadau mewn costau a'r defnydd o ogwydd hyderus lle mae'n rhaid craffu ar bob proses tynnu arian i lawr. Cadarnhawyd hefyd bod mynegeio a chwyddiant wedi'u cynnwys yn yr amcangyfrifon costau, ond nid yw effaith bosibl Brexit yn hysbys.

**Cam gweithredu – KG i benderfynu a ellir ystyried effaith Brexit ar brisiau trawsnewid CVL i gostau rhaglenni.**

Derbyniodd y Bwrdd argymhelliad i gyflwyno'r asesiad effaith yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru er mwyn datblygu trafodaethau cyllidebol. Cytunodd y Bwrdd hefyd ar unrhyw newidiadau sy'n deillio o beirianneg gwerth pan gânt eu gweithredu gan dîm y prosiect.

**5e. Prydles Pontypridd**

Ymunodd YR â’r cyfarfod. Ystyriodd y Bwrdd bapur yn gofyn iddo gefnogi argymhelliad i lofnodi prydles gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i feddiannu adeilad swyddfa 60,000 troedfedd sgwâr yn 3 Llys Cadwyn, Pontypridd rhwng 2020 a 2035, gyda rhent blynyddol o £833,000. Cadarnhawyd y bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn llofnodi'r brydles fel gwarantwr a'i bod wedi cadarnhau ei bod yn fodlon ei llofnodi. Ar ôl llofnodi'r brydles, rhagwelir y bydd yr allweddi'n cael eu trosglwyddo i Drafnidiaeth Cymru ddydd Llun 19 Hydref. Rhoddwyd gwybod i’r Bwrdd bod y gwaith ffitio cyfalaf "Cat B" ymlaen llaw bron wedi'i gwblhau ac y disgwylir i'r gost derfynol fod yn is na £4.2 miliwn a TAW, sy'n is na'r £4.6 miliwn a amcangyfrifwyd ym mis Hydref 2019 ac yn is na'r gyllideb TAW o £4.3 miliwn a mwy y mae Llywodraeth Cymru wedi'i neilltuo ar gyfer y gwaith hwn.

Gofynnodd y Bwrdd a yw'r swyddfa newydd yn gallu addasu i fyd ar ôl COVID-19 lle mae’n debygol y bydd llai o bobl yn y swyddfa ar unrhyw un adeg. Rhoddwyd gwybod i’r Bwrdd y gellir defnyddio'r swyddfa mewn gwahanol ffyrdd gan ganolbwyntio ar fannau sydd wedi'u dodrefnu ar gyfer cydweithio yn hytrach na banciau o ddesgiau.

Cymeradwyodd y Bwrdd yr argymhelliad i lofnodi'r brydles gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

**5f. Cyfathrebu**

Rhoddwyd gwybod i’r Bwrdd bod argraff brand wedi gostwng yn ôl i ffigurau Mai 2020. Cafodd materion diweddar yn ymwneud â chludo myfyrwyr i'r coleg yn Henffordd ac o amgylch y dref wedi cael effaith negyddol. Fodd bynnag, bu digon o ymgysylltu mewnol ac allanol cadarnhaol arall.

**5g. Cerdyn sgorio**

Nododd y Bwrdd y cerdyn sgorio a gofynnodd am ychwanegu mesur ar gyfer seilwaith.

**5h. Cynllun strategol**

Ystyriodd y Bwrdd rinweddau cyhoeddi cynllun pum mlynedd strategol a chytunodd i aros tan ganol y flwyddyn yn dilyn etholiadau'r Senedd, rhaglen lywodraethu newydd a Strategaeth Drafnidiaeth newydd Cymru.

**5i. Papurau i’w nodi**

Nododd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am Raglen Drafnidiaeth Integredig y Dyfodol a thracwyr cerrig milltir.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol ac am y papurau ategol.